CROESO

RYDYM AR AGOR DRWY GYDOL Y FLWYDDYN…

Mehefin, Gorffennaf, Awst a'r prif wyliau ysgol - 9.30 tan 5.30, gweddill y flwyddyn - 10.00 tan 4.30.

Cynhelir teithiau bob dydd rhwng y Pasg a hanner tymor mis Hydref, os oes galw. Ar bob adeg arall, cynhelir y teithiau ar ddyddiau dethol yn unig. Argymhellir archebu eich lle ymlaen llaw ar gyfer y daith. Mae rhai cyfyngiadau'n berthnasol, ffoniwch neu ewch i'n gwefan am wybodaeth bellach.

Sylwer: am resymau iechyd a diogelwch, ni chaniateir plant dan 4 oed ar y daith.

Ar gau Rhag 24ain, 25ain, 26ain a
31ain a Ion 1af .

EIN PRISIAU….

Ceir mynediad i'r Ganolfan Ymwelwyr yn rhad ac am ddim ond ffoniwch ni ar 01286 870636 am brisiau'r Teithiau ac unrhyw wybodaeth bellach. Mae ein teithiau'n llenwi'n gyflym felly rydym yn argymell eich bod yn archebu eich lle'n fuan i osgoi cael eich siomi.

Mae tocynnau teulu a phrisiau arbennig i grwpiau ar gael – ffoniwch 01286 870636 am fanylion pellach.

Mae'r mynediad olaf i'r Ganolfan Ymwelwyr 15 munud cyn iddi gau.

Argymhellir eich bod yn archebu eich lle gan fod ein teithiau'n llenwi'n gyflym.

Am fanylion pellach: Ffôn 01286 870636

MAE'N HAWDD CAEL HYD I NI

Dim ond 15 munud ydym ni o ffordd ddeuol yr A55 a dim ond ryw awr o'r M56, ar yr A4086 ym mhentref Llanberis, ar lan Llyn hardd Padarn.

Croesewir grwpiau ar fysus a cheir MAES PARCIO AM DDIM i fysus.

Sylwer bod archebu ymlaen llaw yn ddoeth ar gyfer y daith.

Gellir llogi ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd, cynadleddau a rhaglenni hyfforddi.
Gweler ein gwefan am fanylion pellach neu ffoniwch 01286 873020.

Mynydd Gwefru
Electric Mountain

Croeso
Cymraeg Cymreig
A Warm Welsh Welcome

www.electricmountain.co.uk
info@electricmountain.co.uk

Canolfan Ymwelwyr Y Mynydd Gwefru
Llanberis, Gwynedd LL55 4UR

Ffôn: 01286 870636

Dylunio gan MwnciBach.com

Y MYNYDD GWEFRU



Mynydd Gwefru
Electric Mountain

TANIWCH DDIDDORDEB Y TEULU CYFAN!

NATUR AR EI MWYAF PWERUS

Dewch ar siwrnai i archwilio'n ddwfn y tu mewn i un o geudyllau mwyaf Ewrop o wneuthuriad dyn a chewch ddysgu sut mae'r trydan yn eich cyrraedd chi pan ydych ei angen fwyaf.

CROESO

Ydych chi erioed wedi meddwl sut mae'r teclynnau trydan rydym ni'n dibynnu arnynt o ddydd i ddydd yn gweithio? Neu sut mae'r Grid Cenedlaethol yn ymdopi yn ystod cyfnodau o alw eithriadol uchel am drydan? Atebir y cwestiynau hyn, a llawer mwy, wrth i chi fod yn llygad-dyst i'r gwaith o greu trydan yn Y Mynydd Gwefru.

Mae eich siwrnai o ddarganfod yn dechrau gyda'n ffilm gyflwyniadol gyflym yn dangos sut mae gorsaf storio sy'n gweithio gyda phwmp, fel yr un yn Y Mynydd Gwefru, yn sicrhau bod gofynion y wlad am drydan yn cael eu bodloni. Wedyn, byddwch yn neidio ar Fws y Mynydd ac yn dechrau ar siwrnai i lawr drwy'r labyrinth o dwnelau tywyll i ganol Mynydd Elidir, lle byddwch yn cael profiad o un o gyflawniadau peirianyddol mwyaf dyn. Gan ddilyn un o'n harbenigwyr cyfeillgar, byddwch yn cael cyfle i weld yn uniongyrchol beth sy'n gwneud Y Mynydd Gwefru mor unigryw.

Cewch ryfeddu at faint aruthrol y siambrau falf mewnol anferth (sy'n gartref i chwe uned enfawr) a gweld yn agos iawn atoch y generaduron tyrbein cyflymaf eu hadwaith yn y byd – maent yn mynd o sero i bŵer llawn mewn eiliadau! Rhaid gweld i gredu yn y pwerdy rhyfeddol hwn o egni!

BETH AM WNEUD YN FAWR O'CH YMWELIAD Â LLANBERIS

Pan ydych yn Y Mynydd Gwefru, rydych o fewn milltir i BEDWAR atyniad rhyfeddol arall: Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Parc Gwledig Padarn, Rheilffordd Llyn Llanberis a Rheilffordd Mynydd Yr Wyddfa.

SIOP ANRHEGION

Meddylgar, dymunol neu hwyliog? Cewch hyd i anrheg sy'n werth ei roi o blith ein cyfoeth o stoc sydd wedi'i ddewis yn ofalus ar eich cyfer chi.

Rydym yn arbenigo mewn syniadau unigryw ar gyfer anrhegion a hefyd yn cadw amrywiaeth o ddillad awyr agored o safon.



GWASANAETH ARLWYO MELLORS YN Y MYNYDD GWEFRU

Mae Gwasanaethau Arlwyo Mellors yn cynnig awyrgylch cyfeillgar a braf i fwynhau bwyd ffres hynod flasus. Lle bo modd, mae ein bwyd yn gynnyrch lleol a defnyddiwn amrywiaeth o gynhyrchion masnach deg.

Gyda dewis eang o fwydydd a diodydd poeth ac oer ar gael drwy gydol y dydd i'w bwyta i mewn neu i'w cludo allan, mae Mellors yn darparu arlwyo o safon uchel i ddiwallu eich anghenion.

Rydym hefyd yn darparu ar gyfer grwpiau a digwyddiadau, gydag opsiynau bwffe ar gael hefyd.

Cysylltwch â'n Rheolwr Arlwyo, Ffôn: 01286 873024

Y DEN

Gadewch i'ch plant ryddhau dipyn o egni yn ein safle chwarae meddal ffantastig. Mae'n ddiogel, yn feddal ac yn llawn hwyl i blant hyd at 12 oed (4'9") ac fe gewch chi eistedd yn ôl ac ymlacio yn ein seddi cyfforddus tra maen nhw'n mwynhau.

Ar agor 7 niwrnod yr wythnos, 10 - 6 ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol lleol a 10 – 2.30 ar ddyddiau ysgol. Mae'r Den hefyd yn gaffi sy'n cynnig bwyd amrywiol. Croesewir partion plant.

Mae ffi fynediad yn berthnasol i blant.

www.yden.co.uk | 01286 873050 | elj123@hotmail.com